



University of
Sheffield



carersUK
making life better for carers



Centre
for Care



UNIVERSITY OF
BIRMINGHAM

NHS

South Yorkshire
Integrated Care Board

NIHR





National Institute for
Health and Care Research




Economic
and Social
Research Council

Trosolwg o'r Dangosfwrdd Gofal Di-dâl a Sut i'w Lywio







Llywio trwy'r Dangosfwrdd. Fe welwch chi dudalennau gyda themâu gwahanol.



Gofal Di-dâl – mae'r dudalen hon yn canolbwyntio ar ofalwyr di-dâl yn unig ac yn dangos sut mae ffactorau megis ethnigrwydd, rhywedd, oriau gofal, cyflogaeth ac oedran yn gysylltiedig.



Demograffeg – mae'r dudalen hon yn darparu ystadegau a graffiau syml ar oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a statws priodasol, gan ganiatáu i chi gymharu gofalwyr di-dâl â'r boblogaeth gyffredinol.



Iechyd – fel y dudalen Demograffeg, mae'r adran hon yn darparu ystadegau a graffiau ar statws iechyd ac anabledd gan gymharu gofalwyr di-dâl â'r boblogaeth gyffredinol.



Addysg – mae'r dudalen hon yn darparu manylion y lefelau addysg uchaf a gyflawnwyd.




Cyflogaeth – Mae'r dudalen hon yn canolbwyntio ar gategoriâu swyddi a hanes cyflogaeth ar gyfer gofalmwyr di-dâl a phobl nad ydynt yn ofalmwyr.



I wneud pethau hyd yn oed yn haws i chi, rydym wedi creu tudalen "Cymharu". Mae'r dudalen hon yn caniatáu i chi gymharu gwahanol awdurdodau lleol neu dracio newidiadau dros amser o fewn yr un awdurdod, gan ganolbwyntio ar ofal di-dâl, demograffeg, iechyd, addysg a chyflogaeth.



Hidlo Eich Data.




Mae pob tudalen yn caniatáu i chi hidlo yn ôl:


- Awdurdod lleol - i gymharu data ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol.
- Oriau gofal – hidlo yn ôl oriau gofal a ddarperir yn wythnosol.
- Blwyddyn – cymharu data dros amser o 2011 neu 2021.
- Rhyw ac Oedran - dadansoddi data yn ôl y demograffegau allweddol hyn.



Gallwch ddefnyddio'r botwm rheoli i wneud dewisiadau lluosog ar draws yr holl hidlwyr. Er enghraifft, gallech gyfuno awdurdodau lleol sy'n ffurfio Bwrdd Gofal Integredig.




Defnyddiwch yr eicon gwybodaeth 'i' i weld y blwch gwybodaeth sy'n esbonio'r cynnwys a gyflwynir.



Chwiliwch am y blwch disgrifiad data (cornel dde uchaf) ar bob tudalen - mae'n egluro termau Cyfrifiad ar gyfer pob categori Cyfrifiad a ddefnyddiwyd yn ein hastudiaeth.



Am gael rhifau cyflym?



Ewch i'r dudalen Ystadegau Cyflym i gael crynodebau syml.



Angen Rhagor o Gymorth?

Os ydych chi eisiau'r data neu'r delweddau mewn fformatau Microsoft Excel neu Word - yn barod ar gyfer eich dadansoddiad a'ch adroddiadau eich hun - cliciwch "Gofyn am ddata" i gyflwyno ffurflen. Bydd y data/delweddau y gwnaethoch ofyn amdanynt yn cael eu hanfon trwy e-bost yn uniongyrchol atoch.

Ar goll? Ewch i'r dudalen 'Cymorth' i weld Cwestiynau Cyffredin, ac awgrymiadau.

Rydym yn gobeithio y bydd y
dangosfwrdd hwn yn eich grymuso
â mewnwediadau i adrodd eich
straeon a'ch ymchwil eich hun sy'n
seiliedig ar ddata!

Angen cymorth pellach?

Anfonwch e-bost atom yn:
centreforcure@sheffield.ac.uk

Dechreuwch
archwilio nawr!

